

## **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Fercher Mai 10fed 2022 am 6.30yh trwy Zoom.**

**Presennol:** Cynghorwyr Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Catherine Jones, Philip Stevens, Gaynor Morgan Rees, Lara Pritchard, Sylvia Jennings & Jan Tomlinson; and Jenny Barlow (Clerc y Dref)

**Arsylwi:** Norma Rowles (Gweinidog Lleyg Trwyddedig), Cyng Lynette Edwards (Maer Caerwys), Cyng Menna Jones (Maer Rhuthun), Stuart Owen (Marshall Dinesig) & Cynghorydd Sir Pauline Edwards.

### **Croesawodd y Maer, y Cynghorydd Alyn Ashworth bawb i'r Cyfarfod Blynyddol.**

- 1 Gweddïau:** Agorodd cynrychiolydd Caplaniaid y Maer am y noson, Norma Rowles (Gweinidog Lleyg Trwyddedig) y cyfarfod gyda gweddïau.
- 2 Ymddiheuriadau:** Y Parch Jane Finn (Chaplain Y Maer), Mike Baker (Cofiadur Anrhydeddus) & Peter Glynn (Swyddog Dinesig),
- 3 Adroddiad Blynyddol y Maer:** Darllenodd y Cyng Alyn Ashworth ei anerchiad blynyddol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023 a diolchodd i'r Dirprwy Faer a'r Cymar am eu cefnogaeth.
- 4 Ethol Maer am y Flwyddyn:** Cynigiodd y Cyng Roy Tickle, eiliwyd gan y Cyng Philip Stevens a phenderfynodd ethol y Cyng Alyn Ashworth yn Faer Dinbych ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023/2024. Nid oedd unrhyw gwrth gynnig. Darllenodd a llofnododd y Cyng Alyn Ashworth y Datganiad Derbyn Statudol yn derbyn y swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Ail gynigydd.
- 5 Pleidlais o Ddiolch:** Diolchodd y Cynghorydd Alyn Ashworth i'r Cyngor Tref am y Plac Dinesig a Bathodyn y Cyn Faer i goffau ei flwyddyn yn y swydd. Cadarnhaodd y Maer hefyd y byddai ei elusennau dewisol ar gyfer 2023 – 2024 yn aros yr un fath – Achub Anifeiliaid Gogledd Clwyd, Ty Gobaith, St Kentigern & Sense.
- 6 Ethol Dirprwy Faer:** Cynigiodd y Cyng Jan Tomlinson, eiliwyd gan y Cyng Gaynor Wood Tickle a phenderfynodd ethol y Cyng Catherine Jones yn Ddirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023/2024. Nid oedd unrhyw gwrth gynnig. Darllenodd a llofnododd y Cyng Catherine Jones y Datganiad Derbyn Statudol yn derbyn y swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Ail gynigydd.
- 7 Dychweliad Presenoldeb ar gyfer y flwyddyn 2022/2023:** Cyfeiriodd y Maer at y presenoldeb ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2022/2023. Mabwysiadwyd a nodwyd.
- 8 Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Parch Jane Finn ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023/2024.
- 9 Sul Dinesig :** Cyhoeddodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn cael ei gynnal ddydd Sul y 9 o Orffennaf am 3yp yn Eglwys Santes Fair.
- 10 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:** Derbyniwyd hyn gan y cynghorwyr tref.

- 11 Cynllun Hyfforddi Cyngor Tref:** Derbyniwyd hyn gan y cynghorwyr tref.
- 12 Y Fendith:** I ddod â'r noson i ben, rhoddodd cynrychiolydd caplan y Maer Gweinidog Lleyg Trwyddedig Norma Rowles a roddodd y Fendith.

Caeodd y Maer y cyfarfod am 18.51 yh.

Llofnod:.....

Dyddiad:.....